



# MILIWN O SIARADWYR CYMRAEG

GWELEDIGAETH O 2016 YMLAEN

**RHAGLEN AR GYFER  
LLYWODRAETH NESAF CYMRU**

#etholiad16  
#miliwn





### **Prif Swyddfa**

Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, Prif Swyddfa, Ystafell 5, Y Cambria,  
Rhodfa'r Môr, Aberystwyth, SY23 2AZ

01970 624501 | [post@cymdeithas.cymru](mailto:post@cymdeithas.cymru)

### **Swyddfa'r Gogledd**


Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, Swyddfa'r Gogledd,  
10 Stryd y Plas, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1RR.

01286 662908 | [gogledd@cymdeithas.cymru](mailto:gogledd@cymdeithas.cymru)

### **Swyddfa'r De**

Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, Swyddfa'r De,  
Tŷ'r Cymry, 11 Heol Gordon, Y Rhath, Caerdydd CF24 3AJ

02920 486469 | [de@cymdeithas.cymru](mailto:de@cymdeithas.cymru)

**cymdeithas**  o bobol sy'n gweithredu'n ddi-drais  
dros y gymraeg a chymunedau cymru  
fel rhan o'r chwyldro rhyngwladol dros hawliau a rhyddid

## Cyflwyniad

Nid oes amheuaeth bod canlyniadau Cyfrifiad 2011 yn amlygu'r argyfwng sy'n wynebu'r Gymraeg. Bu gostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg ym mhob rhan o Gymru. Bu'r gostyngiad mwyaf yn yr ardaloedd lle mae'r Gymraeg ar ei chryfaf.

Ers canlyniadau'r Cyfrifiad, mae nifer o adroddiadau clodwiw wedi cael eu cyhoeddi gan argymhell newidiadau polisi i Lywodraeth Cymru, ond mae mwyafrif yr argymhellion sy'n gofyn am newid gwirioneddol wedi eu hanwybyddu, megis argymhelliad adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar yr Iaith Gymraeg a Datblygu Economaidd i osod amod iaith ar bob grant i fusnesau ac argymhellion brys adroddiad yr Athro Sioned Davies.

Wedi dweud hynny, mae nifer o ddatblygiadau addawol ar y gweill. Mae nifer ohonynt yn deillio'n uniongyrchol o ymgyrchoedd y Gymdeithas, gan gynnwys caniatáu i gynghorau sir godi treth uwch ar ail gartrefi, dileu'r cwrs byr TGAU ail iaith, a sefydlu'r Gymraeg fel ystyriaeth berthnasol statudol yn y drefn gynllunio.

Wrth ystyried y pwyntiau uchod, credwn fod yr etholiad nesaf yn un tyngedfennol i'r iaith. Mae cydweithio ar draws Ewrop yn cynnig cyfle gwych i greu cymdeithas aml-ddiwylliannol gydag ieithoedd lleiafrifol eraill ar draws y cyfandir, ac mae'n gyfle hefyd i feithrin perthynas a chreu cynghrair o ieithoedd dan fygythiad yn Ewrop gan greu undod a nerth yn ein brwydr am hawliau teg.

Gan edrych yn ôl ar Gymru ac ystyried maint yr her mae'r Gymraeg yn ei hwynebu, mae gwir angen syniadau a phwrpas newydd ar gyfer rhaglen waith Llywodraeth nesaf Cymru.

Fel y dywedodd yr Athro Sioned Davies yn ei hadroddiad a gyhoeddwyd ym mis Medi 2013 am sefyllfa'r Gymraeg mewn addysg:

*“Os ydym o ddifrif ynglŷn â datblygu siaradwyr Cymraeg a gweld yr iaith yn ffynnu, rhaid newid cyfeiriad, a hynny fel mater o frys cyn ei bod yn rhy hwyr... Ni ellir gwadu ei bod yn unfed awr ar ddeg ...”*

Mae diffyg gweithredu ar argymhellion yr Athro Davies yn syfrdanol, ond, yn wir, gellir defnyddio'r un geiriau i ddisgrifio cynnydd neu ddiffyg cynnydd y Llywodraeth ym mhob maes polisi yn gysylltiedig â'r iaith. Mae diffyg ymateb brys y Llywodraeth yn destun pryder mawr, ac yn colli cyfle i sicrhau'r hyn mae pawb yn dymuno ei weld, sef ffyniant y Gymraeg.

## Her i'r Pleidiau

Felly, er mwyn gyrru'r agenda yn ei blaen gyda'r brys sydd ei angen, rydym yn galw ar i bob plaid wleidyddol ymateb trwy gynnwys cynigion yn eu manifesto etholiadau 2016 sy'n ceisio anelu at y tri nod canlynol:

1. Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn
2. Atal yr allfudiad a chynnal cymunedau ynghyd â sicrhau llwybrau i ddod â Chymry Cymraeg yn ôl i'w cymunedau
3. Defnyddio'r Gymraeg ymhob rhan o fywyd er mwyn sicrhau mai'r Gymraeg yw'r iaith naturiol o'r crud i'r bedd

Wrth drafod gyda nifer o unigolion, arbenigwyr a mudiadau eraill, ymddengys fod cefnogaeth gref i'r tri nod uchod ymysg caredigion y Gymraeg. Er bod hynny'n dibynnu ar nifer o ffactorau, credwn, o weithredu ar yr holl gynigion yn y ddogfen hon, ei bod yn realistig cyrraedd y nod o filiwn o siaradwyr Cymraeg yn trigo yng Nghymru erbyn 2051.

## Dadansoddi'r Her

Mae canlyniadau'r Cyfrifiad yn dangos na chyflawnwyd dau o brif amcanion strategaeth iaith flaenrol Llywodraeth Cymru Iaith Pawb: bu gostyngiad nid yn unig yn y canran o siaradwyr Cymraeg, o 21% i 19%, ond hefyd yn y nifer o wardiau gyda dros 70% yn medru'r iaith. Yn fras, ymddengys fod tua 3,000 yn llai o siaradwyr Cymraeg bob blwyddyn.


## Pobl a Gofodau

Mae nifer o'r pethau hyn yn dibynnu ar ddwy elfen: pobl a gofodau.

Mae angen gwella sgiliau iaith ein pobl - ni ellid gwahanu tynged yr iaith o'r byd addysg a chynllunio'r byd gwaith.

Yn ogystal, mae angen datblygu a chryfhau cydestunau lle mai'r Gymraeg yw iaith naturiol y lleoliad - yn y gwaith, yn y cartref ac yn y gymuned.

## Newid blynyddol yn nifer y siaradwyr Cymraeg rhugl



dim i raddfa

Adeiladu ar bedwar piler er mwyn datblygu'r Gymraeg

Er mwyn adfer iaith yn effeithiol mae angen adeiladu ar bedwar piler:

1. Deddfwriaeth Ddigonol - gan gynnwys gofyn am fesurau megis sgiliau Cymraeg hanfodol ar gyfer rhagor o swyddi
2. Cynllunio - cynllun manwl a dealladwy i bawb er mwyn cyrraedd nod clir, gyda champau clir ar y ffordd
3. Adnoddau - faint sy'n cael ei fuddsoddi ac ym mha brosiectau
4. Cefnogaeth a Diddordeb y Cyhoedd

Nid oes modd gwneud cynnydd heb symud y pedair elfen hyn ymlaen. Weithiau, mae'n rhy hawdd i wleidyddion osgoi'r penderfyniadau anos sydd ei angen drwy ddosrannu arian at brosiectau ni fyddai ei angen pe bai amodau ar grantiau neu reoliadau cadarn yn eu lle. Os ydy ein gwleidyddion o ddifrif am gyrraedd yr amcanion, mae angen penderfyniadau dewr, a byddai nifer ohonynt yn osgoi'r angen am wariant sylweddol o'r newydd, ac yn hytrach gwneud defnydd gwell o'r gwariant presennol.

## I. Miliwn o siaradwyr Cymraeg

Y prif gynigion yr ydym yn galw amdanynt y byddai'n galluogi'r Llywodraeth i gyrraedd y targed hwn yw'r mesurau canlynol.

### Addysg Gymraeg Gyflawn i Bawb

Rydym yn gofyn i Lywodraeth nesaf Cymru weithredu argymhellion adroddiad yr Athro Sioned Davies a gomisiynwyd gan y weinyddiaeth bresennol ond nas gweithredwyd.

Mae'r her anferthol o'n blaenau. Â dim arall yn newid, amcangyfrifir pe byddai addysg gynradd yn cael eu cynnal drwy'r Gymraeg yn unig yfory, byddai'n cymryd tua 33 mlynedd cyn cyrraedd targed o 1 miliwn o siaradwyr.

Ar hyn o bryd, mae 21% o bobl ifanc Cymru yn mynd i ysgolion Cymraeg ac yn gadael yr ysgol gyda'r gallu i gyfathrebu a gweithio mewn dwy iaith

- y Gymraeg a'r Saesneg. Ar y llaw arall, o blith y 79% o bobol ifanc ein gwlad sy'n mynd i ysgolion cyfrwng Saesneg, prin iawn yw'r disgyblion sy'n llwyddo i gaffael yr iaith Gymraeg drwy'r system honno.

Mae'r cyhoedd eisiau unioni'r anghyfiawnder hwnnw. Yn ôl arolwg barn a gomisiynwyd gan YouGov, mae 63% o bobl Cymru yn cytuno â ni na ddylid amddifadu unrhyw ddisgybl o'i etifeddiaeth a'r sgil addysgol o fedru cyfathrebu a gweithio yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Nodwn bod problem ddifrifol gyda'r gyfundrefn Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg a nodir gan nifer fawr o bobl ar hyn o bryd. Nid yw'r cynlluniau hynny wedi llwyddo sicrhau bod cynnydd sylweddol yn y nifer o blant sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg.

Gwelwyd yn ddiweddar gyda helynt Ysgol Pentrecelyn enghraifft glasurol o wendid y system bresennol, sef nad yw'r gyfundrefn yn sicrhau bod gwellhad parhaus yn y ddarpariaeth gyfrwng Gymraeg. Mae hynny'n wir am ysgolion ar bob lefel o ysgolion Saesneg i rai categori uchaf o ran darpariaeth Gymraeg. Byddai'r nod i sicrhau bod y Gymraeg yn iaith i bawb, drwy gynyddu darpariaeth gyfrwng Gymraeg ym mhob ysgol, ynghyd â newidiadau i'r gyfraith yn ffordd o wella'r sefyllfa.

Credwn fod angen gweithredu argymhellion allweddol Yr Athro Davies ar draws y cwricwlwm, sef:

- Sefydlu un continwmm dysgu'r Gymraeg a fyddai'n disodli addysg 'Ail Iaith'
- Byddai rhaid i bob ysgol, coleg a sefydliad addysg uwch gynyddu'r canran o bynciau a ddysgir drwy gyfrwng y Gymraeg.

Credwn ymhellach y dylai fod nod o sicrhau bod pob disgybl yn gallu cyfathrebu a gweithio drwy'r Gymraeg wrth orffen ysgol gynradd ac ysgol uwchradd.

Credwn y dylid deddfu er mwyn gosod yr egwyddorion hyn mewn cyfraith wlad.

Argymhelliad – Cyflwyno Bil Addysg Gymraeg i Bawb er mwyn sefydlu un continwwm dysgu'r Gymraeg, peth addysg cyfrwng Cymraeg i bawb a gosod targedau statudol eraill

Credwn fod angen cymryd mesurau ychwanegol er mwyn gwireddu'r weledigaeth hon, rhai ohonynt drwy'r Bil Addysg Gymraeg i Bawb neu newidiadau eraill:

- Targedau statudol a fyddai, dros amser, yn sicrhau bod pob athro newydd gymhwyso yn gallu cyflawni eu gwaith drwy'r Gymraeg, gan ychwanegu blwyddyn arall i'r cyfnod hyfforddi i ymgeiswyr nad ydynt yn siaradwyr Cymraeg er mwyn iddyn nhw ddod yn rhugl lle bo angen.
- Er mwyn sicrhau bod cynnydd cyflym o ran sicrhau gweithlu digonol i allu cyflawni'r newid, dylid rhoi'r cyfrifoldeb am hyfforddiant athrawon i'r Coleg Cymraeg.
- Sefydlu pwyllgor o arbenigwyr er mwyn sicrhau cynnydd ar y nod o normaleiddio'r Gymraeg o fewn y gyfundrefn addysg a symud pob ysgol lan y continwwm o ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg
- Gosod dyddiad targed statudol ar gyfer addysg blyneddoddd cynnar a chyfnod sylfaen Cymraeg yn unig ar draws Cymru.
- Gosod dyddiadau targed statudol ar gyfer cyflwyno addysg gynradd Gymraeg yn unig yn gynyddol ar draws Cymru.
- Gosod targedau statudol ar gyfer pa ganran o ddysgu cyfrwng Cymraeg mae rhaid i bob ysgol newydd eu cyflawni
- Sefydlu rhaglen cyfnewid athrawon gyda gwledydd eraill yn enwedig rhai gydag ieithoedd lleiafrifol er mwyn: (i) uwchraddio sgiliau ein gweithlu; (ii) manteisio ar sgiliau gwledydd eraill; a (iii) gwneud cynnydd ar wella addysg ieithoedd tramor
- Sefydlu cynllun "Dewch nôl" i Gymru ar gyfer athrawon sy'n gweithio mewn gwledydd eraill
- Sefydlu cynllun gyda manteision ariannol er mwyn annog pobl i symud o'r byd gwaith i ddysgu drwy'r Gymraeg, drwy gynllun sy'n galluogi pobl i weithio'n rhan amser neu sydd wedi ymddeol i addysgu drwy'r Gymraeg

- Sicrhau bod y buddsoddiad yn sgil adroddiad Donaldson i mewn i Dechnoleg Gwybodaeth yn cyd-fynd â rhaglen o wella sgiliau iaith y gweithlu addysg er mwyn cyflwyno fwyfwy o'r pwnc drwy'r Gymraeg
- Dylai unrhyw ysgolion 'arloesol' sy'n cael eu sefydlu yn sgil argymhellion Donaldson arwain ar agenda o gyflwyno fwyfwy o'r cwricwlwm drwy'r Gymraeg
- Cynnwys mewn Bil Cynllunio'r Gweithlu gofyniad bod y Gymraeg yn sgil hanfodol i bob aelod o staff, gan gynnwys holl staff cymorth, sy'n gweithio mewn ysgol Gymraeg
- Sefydlu canolfannau i'r hwyrddyfodiad a throchi ym mhob sir, gyda'r nod o sicrhau eu bod yn gweithredu ar un patrwm â'r gyfundrefn yng Ngwynedd
- Dargyfeirio gwaith Cymraeg i Oedolion i ffocysu ar sicrhau nifer digonol o athrawon sy'n medru'r Gymraeg.
- Gosod y strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg ar sail statudol
- Sefydlu rhaglen i godi ymwybyddiaeth o fanteision addysg amlieithog
- Sicrhau bod trafndiaeth yn rhad ac am ddim i ysgolion Cymraeg
- Ni ddylai'r un ysgol na sefydliad addysg newydd agor gyda chanran is o'r addysg drwy gyfrwng y Gymraeg na'r sefydliadau addysg yn yr ardal leol, na llai na 50% o'r addysg drwy'r Gymraeg

## Addysg Gymraeg i Bob Oedolyn

Er mwyn cyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr mae angen ymwneud â'r byd gwaith mewn ffordd fwriadus a chydlynol, gan na fydd y llif o ysgolion ynddo ei hun yn ddigonol i wneud cynnydd digonol o fewn cyfnod ystyrlon.

Cafwyd cam ymlaen drwy'r Safonau o'r 'hawl' i ddysgu Cymraeg yn y gwaith. Fodd bynnag, mae geiriad y Safonau yn awgrymu dehongliad llac o'r 'hawl' honno:

*“Rhaid i chi ddarparu cyfleoedd yn ystod oriau gwaith ... cyflogeion gael gwersi Cymraeg sylfaenol, a ... hyfforddiant pellach yn rhad ac am ddim er mwyn datblygu eu sgiliau yn yr iaith”*

Mae angen sefydlu'r hawl diamod i ddysgu Cymraeg yn y gweithle i bob maes gwaith, yn hytrach na 'darparu cyfleoedd' i ddysgu yn y sector gyhoeddus yn unig. Fodd bynnag, hyd yn oed gyda fframwaith wan y Safonau, gyda chynllunio bwriadus gellid gwneud cynnydd mawr yn y maes hwn. Felly, mae angen ymestyn y Safonau Gweithredu i'r holl sectorau a ddaw o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

**Argymhelliad – sefydlu'r hawl i ddysgu Cymraeg yn rhad ac am ddim ym mhob gweithle, drwy ymestyn y Safonau Gweithredu i holl sectorau'r economi**

Yn ogystal ag ymestyn hawliau cyfreithiol gweithwyr, mae angen buddsoddiad er mwyn sicrhau bod yr hawl i ddysgu yn cael ei gweithredu mewn modd ystyrlon. Credwn y dylid creu rhaglen i ddysgu hyfforddwyr Cymraeg yn y gweithle. Bydd yr hyfforddwyr yn gyfrifol am ddysgu cyd-weithwyr yn y gweithle er mwyn creu gweithle hollol ddwyieithog. Gellid defnyddio arian ac adnoddau cronfeydd strwythurol Ewropeaidd a Chymraeg i Oedolion er mwyn ariannu'r rhaglen. Gellid targedu rhai sectorau allweddol lle mae angen gwneud cynnydd am resymau strategol megis staff cymorth yn y maes addysg, gofal plant, technoleg gywbodaeth a chwaraeon.

**Argymhelliad – sefydlu rhaglen dysgu Cymraeg yn y gwaith 'Hyfforddi'r Hyfforddwyr' er mwyn cynyddu'n sylweddol y nifer sy'n dysgu'r iaith**

Dylai fod yn hawl i bob oedolyn dderbyn addysg Gymraeg am ddim hefyd. Nid yw'n iawn fod pobl sy'n gwneud Cymru yn gartref iddynt yn gorfod talu i ddysgu iaith ein gwlad. Awgrymwn felly y dylai cyrsiau Cymraeg i Oedolion fod yn rhad ac am ddim. Byddai menter o'r fath hefyd yn cynyddu'r niferoedd sy'n astudio'r Gymraeg fel oedolion sydd oddeutu 1% o'r boblogaeth oedolion nad sy'n siarad Cymraeg ar hyn o bryd<sup>1</sup>.

**Argymhelliad – dylid cynnig gwersi Cymraeg yn rhad ac am ddim i bob oedolyn**

Ar hyn o bryd, nid yw'r Gymraeg yn cael ei chydabod fel sgil hanfodol o fewn y rhaglenni strwythurol Ewropeaidd - mae rhaglenni rhifedd

a llythrennedd yn Saesneg. Felly, gellir ariannu'r argymhellion uchod drwy ddosrannu arian Ewropeaidd iddynt yn ogystal.

**Argymhelliad – newid telerau'r rhaglenni addysg sgiliau sylfaenol a ariennir gan gronfeydd strwythurol Ewropeaidd er mwyn sefydlu'r Gymraeg fel sgil sylfaenol hanfodol**

## Addysg Bellach ac Uwch gyflawn Gymraeg - llam fawr ymlaen i'r Coleg Cymraeg

Daeth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (Y Coleg) i fodolaeth trwy benderfyniad Llywodraeth Cymru, ond bydd rhaid penderfynu ar ei ddyfodol o fewn blwyddyn i'r tymor newydd gan fod cyllideb ond am 5 mlynedd. Gellid colli'r holl gynnydd a dychwelyd at fypwys prifysgolion i gynnal darlithwyr Cymraeg, neu gellid cael naid fawr ymlaen i'r Coleg.

Nawr yw'r amser ar gyfer y naid honno. Er mwyn sicrhau bod gan y Coleg ddyfodol sicr, dylid ei gynnwys yn y fformiwla cyllido newydd i addysg uwch. Hynny yw, dylai'r llywodraeth osod targedau cynyddol ar gyfer cyfran y cyrsiau addysg uwch a ddarperir yn Gymraeg a rhoi'r gyfran honno yn flynyddol at y Coleg i'w rannu.

**Argymhelliad – sefydlu fformiwla cyllido newydd i addysg uwch, gan glustnodi arian i'r Coleg Cymraeg er mwyn sicrhau cyfran gynyddol o addysg cyfrwng Cymraeg**

Ar ben hynny, dylid estyn maes cyfrifoldeb y Coleg Cymraeg. Dylid rhoi iddo'r gyfrifoldeb dros ddatblygu addysg bellach Gymraeg, gan drosglwyddo iddo felly'r swyddogion perthnasol o Colegau Cymru, ac yn wir rhoi i'r Coleg gyfrifoldeb dros addysg ôl-16 yn Gymraeg fel bod continwmm cydlynol ar draws y bwrdd. Yn wir gall hwn fod yn gynllun peilot ar gyfer addysg uwch a hyfforddiant yn gyffredinol trwy estyn yr egwyddor gyfun i addysg uwch. Hynny'n hytrach na bod un dosbarth o weithwyr yn mynd at feysydd fel gwasanaethau gofal a chymdeithasol ac iechyd trwy gyrsiau addysg bellach, ac yna dosbarth "uwch" o reolwyr yn cyrraedd y sectorau trwy gyrsiau addysg uwch.

**Argymhelliad – dylid estyn maes cyfrifoldeb y Coleg Cymraeg i addysg bellach, ac addysg ôl-16 yn fwy cyffredinol**

Gellid torri lawr y gwahanfur drwy fod myfyrwyr yn gallu cychwyn yn y sectorau trwy astudio hyd Lefel 3 Addysg Bellach, weithio'n ymarferol am rai blynyddoedd ac yna derbyn hyfforddiant mewn swydd cyrsiau uwch i ddod yn rheolwyr. Dyna hybu cynhwysiant cymdeithasol a bod llwybr arall at fod yn rheolwyr - gyda phrofiad ymarferol o'r hyn yr oeddent yn ei reoli. Fel hyn bydd addysg Gymraeg yn flaengar.

Cychwynnir y cynllun peilot mewn addysg a hyfforddiant Cymraeg gan fod y niferoedd llai yn golygu ei bod yn gwneud synnwyr cydlynu darpariaeth yn lle bod colegau cyfagos, ysgolion a phrifysgolion yn dyblygu cyrsiau yn Gymraeg. Er mwyn gwireddu hyn, rhaid byddai i'r Coleg gael swyddogaeth yn y drefn hyfforddi athrawon a hyfforddiant yn gyffredinol.

Rhan arall o broses normaleiddio'r Gymraeg fyddai i'r llywodraeth ganolog a lleol, a gwasanaethau ac asiantaethau ym meysydd fel heddlu, iechyd a'r amgylchedd roi i'r Coleg gytundebau ymchwil a dichonoldeb o astudio gwahanol brosiectau. Mae gan y Coleg ddigon o ystod o ddarlithwyr ym mhob maes i gyfarwyddo ymchwil o'r fath. Dylai'r llywodraeth ac asiantaethau cyhoeddus anelu at gyfran gynyddol o'u prosiectau ymchwil eu hunain i'w cyfarwyddo gan y Coleg.

Argymhellad - y Llywodraeth ac asiantaethau cyhoeddus i anelu at roi gyfran cynyddol o'u prosiectau ymchwil i'r Coleg Cymraeg

## Addysg Uwch

Mae helynt diweddar neuadd Pantycelyn ym Mhrifysgol Aberystwyth wedi amlygu problemau sylfaenol gyda'r gyfundrefn addysg uwch. Cyfundrefn sy'n symud yn bellach ac yn bellach i ffwrdd o wasanaethu anghenion dysgu'r gymuned neu Gymru, ac, yn lle, gwasanaethu'r farchnad.

Mae'r sefyllfa gyda neuadd Pantycelyn ond yn un enghraifft o'r problemau difrifol hyn. Wedi'r cwbl, ar yr un pryd â cheisio cau ei hunig neuadd Gymraeg, mae Prifysgol Aberystwyth wedi agor cangen ym Mauritius. Credwn felly y dylid ariannu sefydliadau addysg dim ond gyda'r amod eu bod, fel eu prif nod, yn gwasanaethu anghenion addysgol eu cymunedau lleol a Chymru. Cydnabyddwn ymhellach fod pergyl o greu byd addysg Gymraeg yn hytrach na chymunedau Cymraeg pe na wreiddir

y sefydliadau a'r gwasanaethau yng nghanol ein cymdeithas.

Argymhellad - ni ddylid ariannu sefydliadau addysg uwch nad sydd gyda phrif nod o wasanaethau anghenion addysgol y gymuned a Chymru

Ymhellach, ac yn sgil gweithredoedd anfaddeuol uwch-reolwyr Prifysgolion Aberystwyth a phwysigrwydd neuaddau Cymraeg, dylai fod amod ariannol drwy gyfundrefn ariannol Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ar i Brifysgolion Bangor ac Aberystwyth i gynnal neuaddau JMJ a Phantycelyn. Dylai fod amod ariannol sy'n mynnu bod prifysgolion eraill Cymru yn sefydlu neuaddau cyfrwng Cymraeg sy'n seiliedig ar gynigion cangen y Coleg Cymraeg sef llety sy'n hunan-gynhaliol ac yn cynnwys adnoddau cymdeithasol ac arlwyio. Os nad ydy'r Prifysgolion yn gwneud hynny, dylid trosglwyddo'r asedau, gydag arian digonol i'w hadnewyddu, eu hail-agor neu eu hagor o'r newydd, i'r Coleg Cymraeg.

Argymhellad - sefydlu amod ariannol drwy Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru i sicrhau cynnal a chynyddu'r nifer o neuaddau Cymraeg eu hiaith boed hynny drwy brifysgolion neu'r Coleg Cymraeg

## II. Atal yr Allfudiad

Yn nhermau niferoedd siaradwyr, allfudo yw un o'r ffactorau sy'n cael yr effaith mwyaf niweidiol ar y Gymraeg.

Ym mis Hydref 2013, cyhoeddwyd crynodeb o ganlyniadau'r Gynhadledd Fawr gan Gwmni Iaith ar ran y Llywodraeth a oedd yn dweud mai symudoledd poblogaeth yw'r 'her gyfredol fwyaf' i'r iaith.

Cydnabyddwn fod y ffactorau sy'n gyrru allfudo yn niferus, a nifer ohonynt yn gysylltiedig â gwendidau economaidd Cymru, ond credwn fod nifer o gamau ymarferol y gallai Llywodraeth Cymru eu cymryd i oresgyn yr heriau difrifol hyn.

## Y Gyfundrefn Eiddo a Chynllunio

Cydnabuwyd pwysigrwydd y maes yma i gyflwr y Gymraeg yng nghanlyniadau Cynhadledd Fawr Llywodraeth Cymru, gan adrodd ynghylch yr angen am:



“... gweithdrefnau effeithiol i gynnal asesiadau effaith ieithyddol ystyrllon ... [a'r] angen i hwyluso a chefnogi pobl leol yn eu hymdrechion i brynu tai fforddiadwy iddyn nhw a'u teuluoedd.”

Er cafwyd newidiadau drwy Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 a fydd yn golygu rhywfaint o ystyriaeth i'r Gymraeg wrth ddatblygu o'r newydd, nid yw'n effeithio'n uniongyrchol ar y stoc tai presennol.

Credwn felly bod angen deddfwriaeth a fydd yn rheoli prisiau tai er mwyn eu gwneud yn fforddiadwy i bobl leol er mwyn lleihau allfudo ac felly ei effaith ar y Gymraeg:

- Sefydlu Anghenion Lleol fel sail y gyfundrefn eiddo a chynllunio
- Sefydlu'r Hawl i Rentu ar gyfer Pobl Leol
- Rhoi'r cyfle cyntaf i brynu eiddo i bobl leol fel ffordd o reoli pris eiddo
- Diogelu a chryfhau'r cyfundrefn o osod amodau ar dai er mwyn eu clustnodi ar gyfer pobl leol
- Sefydlu continwwm datblygu'r Gymraeg

Yn ogystal â hyn, dylid nodi bod pedwar mater sydd angen eu cywiro oedd yn absennol o'r Ddeddf Cynllunio diweddar:

- Sefydlu cyfundrefn statudol o asesiadau effaith iaith ar gyfer ceisiadau unigol
- Sicrhau bod targedau tai'n adlewyrchu anghenion lleol yn hytrach nag amcanestyniadau cenedlaethol sy'n hynod niweidiol i'r Gymraeg
- Sicrhau rhagor o ystyriaeth i gynnal bywyd cymunedol yn y gyfundrefn cynllunio ac eiddo
- Sicrhau bod rhagdybiaeth mai ysgolion cyfrwng Gymraeg yn unig fydd yn cael eu hadeiladu drwy unrhyw 'fudd gynllunio'

Argymhelliad – cyflwyno Bil Cartrefi Fforddiadwy i Bawb a fyddai'n cynnwys nifer o fesurau i wneud y stoc tai presennol yn fforddiadwy i bobl leol, ynghyd â gwreiddio'r gyfundrefn ar anghenion lleol, gan gynnwys sefydlu'r hawl i rentu, rhoi'r cyfle cyntaf i bobl leol brynu tai a sefydlu mai seilio datblygiadau ar anghenion lleol ddylai fod y prif egwyddor sy'n arwain ein polisiau tai ac eiddo.

## Mesurau Eraill

Bydd angen nifer o fesurau cysylltiedig er mwyn atal a dadwneud y patrwm negyddol hwn. Felly, dylai Llywodraeth nesaf Cymru wneud y canlynol:

- Adfer y polisi ffi oedd dysgu a fabwysiadwyd yn 2005 (ond a ddi-ddymwyd ychydig o flynyddoedd wedyn) er mwyn annog myfyrwyr o Gymru i astudio yn y wlad
- Yn lle defnyddio pwerau benthyg cyfyngedig y Llywodraeth i fuddsoddi mewn M4 newydd, dylid buddsoddi mewn prosiectau trafniadaeth cynaliadwy ar draws Cymru a fyddai'n hybu cysylltiadau lleol gwell gyda chyfran dda yn mynd i brosiectau yng nghymunedau gwledig Cymru
- Bil Caffael - mesurau i sicrhau bod rhagor o gytundebau cyhoeddus yn mynd i fusnesau lleol
- Cronfa Ariannu Cynnal Gwasanaethau - sefydlu cronfa er mwyn cadw asedau cymunedol ar agor ac ar gyfer datblygiadau bach mewn ardaloedd gwledig
- Sefydlu rheol sy'n sicrhau bod benthyciadau Cyllid Cymru (neu'r corff sy'n ei olynu) yn rhoi cyfrannau teg i ardaloedd ar draws Cymru
- Sefydlu dyletswydd cyfreithiol i fuddsoddi mewn prosiectau datblygu economaidd mewn ffordd cytbwys yn ddaearyddol
- Sicrhau bod dealltwriaeth gymunedol yn rhan graidd o gwricwlwm pob ysgol
- Gweithredu argymhelliad adroddiad ynghylch yr Economi ac Iaith i osod amod iaith ar bob grant a roddir gan y Llywodraeth i fusnesau

Mae nifer o fesurau eraill yn adrannau eraill y ddogfen hon yn cyfrannu at atal yr allfudiad megis sicrhau bod rhagor o gyrff yn gweinyddu'n fewnol yn Gymraeg.

## Cynllunio'r Gweithlu

Mae diffyg cydlynw o ran hyfforddi'r gweithlu yn broblem ddifrifol iawn, nid yn unig i'r Gymraeg, ond i'n cymdeithas yn gyffredinol. Mae diffyg difrifol o ran darparu gweithwyr ym meysydd fel iechyd. Mae nifer o enghreifftiau lle mae siaradwyr

Cymraeg yn cael eu gwrthod gan Brifysgolion.

Rydym yn cefnogi ymdrechion Mentrau Iaith Cymru i sefydlu marchnad lafur Gymraeg gyda chymorth gan gronfeydd strwythurol Ewropeaidd er mwyn gwella'r pontio rhwng addysg a'r byd gwaith ac i sicrhau bod sectorau allweddol yn gwella eu darpariaeth Gymraeg yn sylweddol gan atal allfudiad pobl ifanc leol sy'n chwilio am waith. Er enghraifft, mae Menter Iaith Conwy wedi gwneud gwaith pwysig ym maes awyr agored o ran sicrhau bod pobl leol yn llenwi swyddi yn y maes twristiaeth.

Mae rhai meysydd allweddol lle mae'n rhaid cael cynnydd sylweddol yn sgiliau iaith y gweithlu er mwyn sicrhau bod modd (i) creu rhagor o siaradwyr Cymraeg a (ii) chreu rhagor o ofodau Cymraeg, yn enwedig i bobl ifanc.

Mae enghreifftiau o gyflogwyr Cymraeg yn cymryd rôl blaenllaw wrth hyfforddi'r gweithlu'r dyfodol, a chredwn y gellir ymestyn ac adeiladu ar botensial yr enghreifftiau hyn i sectorau eraill.

Cydnabyddwn yr angen i symud yn gyflymach i glustnodi mwy o swyddi fel rhai Cymraeg hanfodol. Dywedwyd wrthym gan Golegau Cymru y byddai'n fanteisiol iddynt gael targedau mwy manwl mewn rhai meysydd allweddol. Credwn felly y dylai'r Gymraeg fod yn sgil hanfodol i bob gweithiwr newydd yn y sectorau canlynol fel eu bod yn cyflawni, neu'n gallu cyflawni, eu holl waith yn Gymraeg:

- Hyfforddwyr chwaraeon Cymru sy'n hyfforddi pobl o dan 18 mlwydd oed;
- Hyfforddwyr chwaraeon newydd eu hachredu;
- Gweithwyr yn addysg blynyddoedd cynnar a gofal plant
- Gweithwyr ieuentid
- Gweithwyr gofal

Rydym yn derbyn bod modd trafod a manylu yn bellach ar fanylion union dargedau ynghylch y pwynt uchod, ond credwn y gallai'r union fanylion fod yn rhan o'r drafodaeth wrth gyflwyno Bil Cynllunio'r Gweithlu y byddai'n fynd i'r afael â'r materion allweddol hyn.

**Argymhellad – cyflwyno Bil Cynllunio'r Gweithlu a fyddai sefydlu targedau a chyfrifoldebau clir er mwyn sicrhau cyflenwad cynyddol o weithwyr Cymraeg, gan adeiladu ar y farchnad lafur Gymraeg a arweinir gan Fentrau Iaith Cymru**

Yn sicr, mae angen i ni drawsnewid y ffordd rydym yn edrych ar hyfforddiant ac addysg er mwyn iddynt wasanaethau anghenion ein cymunedau yn hytrach na mympwy'r farchnad. Mae angen chwyldro o ran y ffordd rydym yn ariannu a strwythuro ein Prifysgolion fel eu bod yn gwasanaethu'r gymuned yn hytrach na chwilio'r byd am bobl sy'n fodlon talu'r ffioedd uchaf bosibl.

Yn ogystal, dylai Llywodraeth nesaf Cymru wneud y canlynol:

- Sicrhau bod sefydliad Cymraeg ei iaith yn rhedeg y farchnad lafur Gymraeg, gyda phwerau i newid darpariaeth yn y sector addysg uwch a phellach er mwyn gwella'r pontio rhwng addysg ac anghenion y gymuned.
- Ni ddylai Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru gael rhoi arian i sefydliad addysg oni bai bod ganddo brif nod o wasanaethau anghenion addysgol eu cymunedau a phoblogaeth leol.
- Sefydlu Ysgol Feddygol ym Mangor er mwyn gwella cyflenwad staff sy'n medru'r Gymraeg yn y gwasanaeth iechyd
- Dylid adeiladu ar gryfderau a photensial y rhaglen hyfforddi "Cam wrth Gam" gan y Mudiad Meithrin i sectorau eraill fel bod cyflogwyr yn cymryd rôl mwy canolog yng nghynllunio'r gweithlu Cymraeg

### III. Defnyddio'r Gymraeg ym mhob maes

Bydd cyrraedd y nod hwn yn golygu gweithredoedd ym mhob un o'r pedwar piler a grybwyllwyd ar ddechrau'r ddogfen hon fel meysydd allweddol er mwyn sicrhau twf yr iaith.

#### Hawliau

Mae deddfwriaeth gadarn a chynhwysfawr yn rhan allweddol o gynyddu defnydd y Gymraeg a sicrhau

bod rhagor o gyd-destunau a gofodau lle mai Cymraeg yw'r prif iaith.

Mae'n destun siom enfawr na fydd Llywodraeth bresennol Cymru, wedi ei thymor 5 mlynedd, wedi gweithredu ei holl bwerau o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Tra bod y Llywodraeth ac asiantaethau cyhoeddus eraill yn ceisio negodi gyda chwmnïau megis Gwgl a Microsoft i sicrhau darpariaeth Gymraeg ar ddyfeisiadau sydd bellach yn rhan mor bwysig o fywydau pobl, yn enwedig pobl ifanc, mae pwerau statudol a fyddai'n gwneud gwahaniaeth nas gweithredid hyd yn hyn. Mae methiant y Llywodraeth a Chomisiynydd y Gymraeg i basio Safonau yn, er enghraifft, y maes telathrebu wedi golygu llai o ddefnydd o'r Gymraeg gan fod llai o gyfleoedd defnyddio'r Gymraeg ar ffonau clyfar, ar-lein ac ar ddyfeisiadau eraill.

**Argymhellad – gweithredu ar fyrder i weithredu'r pwerau llawn o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 gan gynnwys gosod Safonau ar yr holl sectorau preifat a gwirfoddol a ddaw o dan eu darpariaethau**

Yn ogystal â hyn, wrth weithredu y ddeddfwriaeth a basiwyd yn 2011, cafwyd llawer o broblemau ac amlygwyd, drwy adolygiadau megis un Comisiynydd y Gymraeg ynghylch bancio, nifer o elfennau o'r Mesur sydd angen eu gwella.

**Argymhellad – Diwygio Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 er mwyn ymestyn ei sgôp, sefydlu hawl cyffredinol i dderbyn gwasanaethau yn Gymraeg a gwella'r broses o osod Safonau ar gyrff**

- Gosod hawl cyffredinol i'r Gymraeg yn y Mesur er mwyn cael cyfeiriad gwell i'r safonau iaith, ac y byddai'n sefydlu'r hawl cyffredinol i dderbyn gwasanaethau ar lafar ac yn ysgrifenedig
- Ymestyn Mesur y Gymraeg (2011) i gynnwys i'r sector breifat gyfan, gan gynnwys banciau ac archfarchnadoedd
- Sefydlu'r Gymraeg fel priod, sef prif, iaith Cymru
- Rhoi'r cyfrifoldeb i'r Cynulliad Cenedlaethol benodi Comisiynydd y Gymraeg yn hytrach na Llywodraeth Cymru
- Sefydlu annibyniaeth ariannol i Gomisiynydd y Gymraeg drwy ei hariannu yn yr un modd

â'r Archwilydd Cyffredinol gyda'r arian yn dod yn syth fel canran o'r grant bloc.

- Cryfhau'r cymalau yn y Mesur ynghylch y rhyddid i siarad Cymraeg, er mwyn cosbi gyrff sy'n gweithredu'n anghyfreithlon
- Sicrhau bod yr holl gyrff y gellid eu cynnwys o dan y ddeddfwriaeth iaith bresennol yn cael safonau iaith yn cael eu gosod arny'n nhw
- Gosod 'safonau gweithredu' ar bob corff sy'n dod o dan y fframwaith Safonau fel bod gan holl weithwyr Cymru hawliau i'r Gymraeg
- Ni ddylai safonau hybu a hyrwyddo fod yn gyfyngedig i lywodraeth leol a Llywodraeth Cymru'n unig, dylid gosod safonau hybu ar gyrff a chwmnïau i gyd.
- Sefydlu hawliau i bobl i herio'r Safonau ar y sail nad ydyn nhw'n gwarchod neu hybu eu hawliau i'r Gymraeg yn ddigonol. Dylai fod hawl gan unigolion i herio'r llywodraeth, y Comisiynydd a'r safonau a osodwyd ar gyrff ar y sail nad ydynt yn gwireddu eu hawliau, yn yr un modd bod gan gwmnïau'r hawl i herio o dan y mesur presennol.
- Diddymu'r cyfyngiad o 5,000 ar y swm y gallai'r Comisiynydd ddirwyo gyrff am dorri'r Safonau.
- Symleiddio'r broses o osod safonau ar gyrff gan ddefnyddio arbenigedd y Comisiynydd i lunio'r Safonau yn hytrach na gweision sifil nad sy'n arbenigo yn y gwaith.
- Dylai fod gosodiad cyffredinol yn y Bil fod gan bobl Cymru yr hawl i ddefnyddio'r Gymraeg cyn belled ag y bo hynny'n rhesymol o dan yr amgylchiadau.
- Dylid sefydlu hawliau sylfaenol eraill gan gynnwys: yr hawl i gael addysg yn Gymraeg; yr hawl i dderbyn gwasanaethau, gwybodaeth, cyfleusterau a nwyddau yn Gymraeg wrth ddelio gyda'r sector cyhoeddus, preifat neu wirfoddol; yr hawl i ddefnyddio a dysgu'r Gymraeg yn y gweithle; yr hawl i barch ac i fod yn gyfartal ac i beidio dioddef camwahaniaethu neu anfantais wrth ddefnyddio neu arddel y Gymraeg. Dylai fod dyletswydd ar y Comisiynydd i warchod a hybu'r hawliau hynny.

- Dylid ystyried y Safonau fel rheoliadau sydd yn manylu ar yr hawl gyffredinol; dylid gosod dyletswydd ar y llywodraeth a'r Comisiynydd i osod safonau sydd mor eglur â phosib o safbwynt yr unigolyn sydd eisiau defnyddio'r iaith.
- Sefydlu Cyngor yr Iaith Gymraeg fel corff hyrwyddo corfforaethol ar wahân i'r Comisiynydd. Gellid cyflawni hyn yn rhwydd trwy ail-enwi 'Cyngor Partneriaeth y Gymraeg' yn 'Cyngor y Gymraeg' a chan roi adnoddau ac annibyniaeth iddo o'r Llywodraeth er mwyn gwneud y gwaith o hyrwyddo'r Gymraeg yn fwy effeithiol.
- Dileu'r ansicrwydd cyfreithiol ynghylch gwneud rhagor o swyddi'n rhai ble mae'r Gymraeg yn hanfodol

## Gwasanaeth Aml-blattform Newydd

Dylid sefydlu darlledwr aml-blattform newydd a fyddai'n creu cynnwys, er mwyn cynyddu defnydd y Gymraeg yn enwedig ymysg pobl ifanc, gan weithredu ar-lein yn bennaf, ond ar radio ac ar y teledu yn ogystal, gan gynorthwyo gwasanaethau S4C a Radio Cymru a rhyddhau'r darlledwyr presennol o'r baich o geisio gwasanaethu'r gynulleidfa gyfan.

Argymhelliad – sefydlu darlledwr aml-blattform newydd

Mae angen datganoli y maes darlledu a'r corff rheoleiddio, Ofcom, i Lywodraeth Cymru. Byddai hyn yn arwain at fwy o graffu gwleidyddol yn y cyfryngau ar yr hyn sy'n digwydd yng Nghymru, a fydd yn y pendraw yn cynyddu democratiaeth.

Mae angen diwallu'r hawl sylfaenol i bobl dderbyn newyddion yn Gymraeg bob dydd a thrwy bob cyfrwng, felly dylai fod gan y darlledwr aml-blattform newydd wasanaeth newyddion sy'n annibynnol o'r BBC.

## Gweinyddiaeth Fewnol Gymraeg

Mae lleoliadau gwaith cyfrwng Cymraeg yn hanfodol fel gofodau nid yn unig i gynnal y Gymraeg ond i gynyddu ei defnydd a nifer y siaradwyr.

Mae nifer o gyrff yng Nghymru yn gweithio'n fewnol drwy'r Gymraeg megis Cyngor Gwynedd. Ceir nifer o enghreifftiau o bobl sydd wedi dysgu

Cymraeg i lefel gwbl rugl oherwydd eu bod wedi derbyn swyddi yn y cyngor. Daeth nifer o arbenigwyr i'r casgliad bod polisi cyflogaeth Gwynedd wedi arwain at dwf yn nifer y siaradwyr Cymraeg mewn rhai ardaloedd o'r sir honno yn groes i'r cwmp cyffredinol. Ym mis Mawrth 2014, mabwysiadwyd yr argymhelliad trawsbleidiol canlynol gan Gyngor Sir Gaerfyrddin:

*“NOD: I gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn y gweithle a dwyieithogi ymhellach gweinyddiaeth fewnol y Cyngor gyda'r nod o weinyddu'n bennaf trwy gyfrwng y Gymraeg gydag amser”*

Fis Rhagfyr 2015, ymddiswyddodd y Cynghorydd Siân Gwenllian o fwrdd rheoli Cartrefi Cymunedol Gwynedd o ganlyniad i'w benderfyniad i ollwng gofynion iaith ar nifer o swyddi. Cafodd y corff ei sefydlu gan Gyngor Gwynedd i redeg ei stoc dai. Cynhaliodd 250 o ymgyrchwyr iaith brotest ar 24ain Ionawr 2015 mewn ymdrech i wrth-droi penderfyniad cymdeithas dai yng Ngwynedd i beidio cynnwys y Gymraeg fel sgil hanfodol ar gyfer swyddi rheoli haen uchel.

Mewn cyfarfod gyda swyddogion Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn 2013, dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol, Derek Jones, ei fod yn gefnogol i'r syniad o gynyddu nifer yr adrannau yn Llywodraeth Cymru sy'n gweinyddu'n fewnol trwy'r Gymraeg.

Cytunwn gyda sylwadau diweddar Comisiynydd y Gymraeg y dylai holl weision sifil Cymru fod yn rhugl yn Gymraeg. Credwn hefyd y dylid dynodi meysydd allweddol yn y gweithlu megis staff addysg, chwaraeon, gweithwyr ieuenctid, iechyd, addysg blynyddoedd cynnar, a gofal lle mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol i bob gweithiwr yn y maes.

Argymhelliad – gosod Targedau Gweithlu Dwyieithog yng Nghymru. Galwn ar Lywodraeth nesaf Cymru i arwain y ffordd drwy sefydlu continwwm gweithlu dwyieithog i gyrff cyhoeddus Cymru. Bydd rhaid i bob corff felly anelu at gael canran penodol o'u gweithlu yn gallu'r Gymraeg gan arwain at weithio'n Gymraeg yn bennaf yn y pendraw.

## Ad-drefnu Llywodraeth Leol

Pwrpas y cynllun o Ddiwygio Llywodraeth Leol ddylai fod i roi grym yn nwylo pobl Cymru.

Mae'r Gymraeg wedi bod mewn sefyllfa o wendid yn ein Hawdurdodau Lleol erioed ac o'r

dystiolaeth a gasglwn mae hynny'n parhau o fewn y 22 Awdurdod presennol. Mae'n bryder mawr bod gwendidau sylfaenol yn parhau cyhyd ac fe welwn yr ad-drefnu arfaethedig yn gyfle i fynd i'r afael â ffaledau dirfawr yr awdurdodau hyd yma i ddarparu gwasanaethau llawn yn Gymraeg. Mae gwir angen mynd i'r afael â'r methiant hwn a dyma gyfle arall i wneud hynny.

Mae angen amddiffyn ac ehangu nifer y cyrff sy'n gweinyddu'n fewnol drwy gyfrwng y Gymraeg. Rydym yn ymwybodol mai dim ond o fewn un awdurdod y mae hynny'n digwydd ar hyn o bryd, sef Cyngor Gwynedd; felly mae angen cryfhau'r ddarpariaeth ar fyrder. Byddai hyn yn gwireddu hawliau gweithwyr i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg.

Wrth i'r newidiadau hyn ddod i rym, bydd yr unedau o reidrwydd yn cynyddu mewn maint, a thrwy hynny yn cryfhau'r ymdeimlad fod atebolrwydd yn pellhau. Gwanhau fydd cysylltiad rhwng yr etholwr a'r darparwr, a bydd hynny'n cael effaith niweidiol ar ddemocratiaeth. Credwn fod angen adfywio a chryfhau democratiaeth, yn enwedig ar lefel leol iawn. Gwelwn fod hyn yn gyfle da i ddod a'r broses ddemocrataidd yn agosach at y bobl ac i roi mwy o gyfrifoldebau yn nwylo Cyngorau Cymuned. Gwelir bod mwy o rôl iddynt yn benodol yn y system gynllunio.

Gwelwn fod gwasanaethau lleol yn hollbwysig i hyfywedd cymunedau a'r Gymraeg ac rydym yn edrych ar yr ad-drefnu yn y goleuni hynny.

Mae angen creu set o safonau iaith cyson ar draws y gwasanaethau cyhoeddus, y drydedd sector a'r sector breifat er mwyn gwella gwasanaethau Cymraeg ac a fydd yn sicrhau eglurder i'r cyhoedd.

Argymhelliad – dylai unrhyw ad-drefnu Llywodraeth leol gynyddu'r nifer o awdurdodau sy'n gweithio drwy'r Gymraeg gan osod cymalau mewn deddfwriaeth er mwyn sicrhau hynny

## Y Gymraeg yn y Gymuned

Mae'n hollbwysig i gynnal a sefydlu gofodau lle mai'r Gymraeg yw iaith yr amgylchfyd - gallai'r rhain fod yn amrywiol o ganolfannau cymunedol i ofodau ar y we.

Credwn felly y dylid

- Sefydlu llety penodedig Cymraeg ar gyfer

myfyrwyr ym mhob prifysgol yng Nghymru wedi ei fodelu ar neuadd Pantycelyn gyda'r asedau yn nwylo'r Coleg Cymraeg neu brifysgolion

- Sicrhau, dros amser, bod grantiau'r Llywodraeth ar gyfer clybiau ieuenctid a gweithgareddau allgyrsiol i blant dim ond yn cael eu dosrannu i weithgareddau Cymraeg eu hiaith.
- Dylai fod gofyniad ar holl glybiau ieuenctid i gael staff cyfrwng Cymraeg. Bydd hyn yn cyd-fynd â chynorthwyo awdurdodau lleol i gwrdd â'u dyletswyddau o dan y Safonau
- Dylid symud at un darparwydd ar gyfer addysg cyn-ysgol a fydd yn sefydliad Cymraeg a fydd, dros amser, yn symud holl ddarpariaeth cyn-ysgol i fod yn ddarpariaeth uniaith Gymraeg.

## Arian a Phwerau Treth

Mae camddealltwriaeth difrifol ynghylch gwariant ar y Gymraeg. Ar hyn o bryd, mae tanwariant difrifol ar y Gymraeg yng nghyllidebau prif ffrwd y Llywodraeth. Ni welir gwariant ar y Saesneg fel cost, ond ystyrir gwariant ar wasanaethau Cymraeg fel cost ychwanegol.

Dylid comisiynu Comisiynydd y Gymraeg i wneud asesiad annibynnol o effaith iaith holl wariant ar draws holl adrannau'r Llywodraeth. Nid ydym yn galw am asesiad o effeithiolrwydd y gyfran bitw (tua 0.15%) o'r gyllideb a warir ar brosiectau penodol er mwyn hyrwyddo'r iaith, ond asesiad o effaith iaith y gwariant presennol yng nghyllidebau enfawr gwasanaethau megis y gwasanaeth iechyd.

Argymhelliad – Comisiynu Comisiynydd y Gymraeg i gynnal asesiad annibynnol o effaith iaith gwariant prif-ffrwd Llywodraeth Cymru, a gweithredu ei argymhellion er mwyn sicrhau effaith iaith well gwariant presennol ar draws holl adrannau'r Llywodraeth a'r cyrff mae'n ei noddi

Fodd bynnag, yn nhermau'r gwariant pitw hwnnw ar brosiectau penodol er mwyn hybu'r Gymraeg, rydym yn cytuno gyda Mudiadau Dathlu'r Gymraeg y dylai Llywodraeth nesaf Cymru wario o leiaf 1% o'r gyllideb arnynt, sef yr union ffigur sy'n cael ei wario yng Ngwlad y Basg ar hyn o bryd. Dylai pob corff glustnodi o leiaf 1% o'i gyllideb er

mwyn datblygu a hyrwyddo'r Gymraeg, a hynny yn ychwanegol at eu darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.

Argymhelliad – Llywodraeth Cymru i osod allan rhaglen i gynyddu gwariant ar y Gymraeg i 1% o gyllideb, gyda disgwyliad hefyd i'r cyrff mae'n ei ariannu i glustnodi 1% ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg

## Blaenoriaethau Gwariant / Arbedion

Eto, credwn y dylid blaenoriaethu gwariant ar brosiectau a fydd yn cyflenwi pobl sy'n siarad y Gymraeg yn ogystal â gofodau Cymraeg.

- Addysg i Oedolion wedi ei dargedu ar symud cyrff at weinyddiaeth fewnol Gymraeg, gan gynorthwyo dynodi mwy o swyddi gyda sgiliau Cymraeg hanfodol
- Addysgu Gweithwyr Allweddol, megis athrawon a staff cynorthwyol addysg, chwaraeon, gofal ac iechyd er mwyn sicrhau twf yn nefnydd yr iaith a sicrhau gwasanaethau Cymraeg digonol
- Prosiectau peilot mewn ardaloedd o dwf er mwyn adfer yr iaith mewn ardaloedd daearyddol
- Cyrsiau Dysgu Cymraeg i Oedolion am ddim
- Rhagor o adnoddau i fudiadau lawr gwlad megis y Mentrau Iaith, yr Urdd a Merched y Wawr
- Cyfuno Menter a Busnes a Mentrau Iaith er mwyn creu Mentrau Iaith a Gwaith
- Rhoi arian ar gyfer clybiau ieuencid i fudiadau Cymraeg yn unig
- Prif-ffrydio'r Gymraeg yn y rhaglen Dechrau'n Deg a Chymunedau'n Gyntaf

Er ein bod wedi croesawu bodolaeth yr arian gyfalaf ar gyfer sefydlu canolfannau Cymraeg drwy'r gronfa 'Bwrw Mlaen', credwn fod nifer o wendidau yn y rhaglen, a bod cyfle i ddatblygu'r rhaglen ymhellach. Testun siom oedd deall nad oedd nifer o geisiadau cymunedol yn llwyddiannus o dan y cynllun presennol. Credwn felly y dylid sefydlu cronfa newydd a fyddai'n sicrhau bod: (i) rhagor o gyfleoedd cymdeithasol i bobl ifanc, yn enwedig yn ein cymunedau gwledig; (ii) ardaloedd daearyddol mwy gwledig yn elwa o'r gwariant; a (iii) mudiadau

llai ar lawr gwlad yn elwa i'r eithaf. Credwn y dylid sefydlu cronfa ar gyfer prosiectau llai er mwyn cynnal a chynyddu'r nifer o ofodau lle mai'r Gymraeg yw prif iaith y gofod.

Argymhelliad – Sefydlu Cronfa Ariannu Cynnal Gwasanaethau ac Adnoddau Cymunedol sy'n cynnig symiau cymharol fach o arian i grwpiau cymunedol megis Merched y Wawr er mwyn cynnal gwasanaethau a gofodau lle mai'r Gymraeg yw prif iaith y lleoliad neu grŵp

## Trosglwyddiad iaith

Mae trosglwyddiad iaith rhwng rhieni a'u plant yn gwbl hanfodol er mwyn sicrhau twf yr iaith - mae cyfraddau trosglwyddo yng Nghymru yn eithaf isel. Mae angen buddsoddi mewn ymgyrchoedd marchnata a chodi ymwybyddiaeth er mwyn gwella'r sefyllfa hyn. Ymhellach, yn ôl yr ystadegydd Hywel M Jones: "*Mae peth tystiolaeth bod y gyfradd drosglwyddo'n gysylltiedig â statws sosio-economaidd y teulu, gyda'r gyfradd yn gostwng i raddau gyda statws is.*" Casgliad sy'n tanlinellu pwysigrwydd cynlluniau sy'n anelu at daclo tlodi ac adfer y Gymraeg, megis Dechrau'n Deg.

Argymhelliad – dylai fod buddsoddiad sylweddol mewn prosiectau, megis Twf, er mwyn gwella trosglwyddiad yr iaith rhwng rhieni a phlant

## Trethu

Dylid creu treth ar werth tir er mwyn atal datblygwyr rhag chwyddo prisiau tir fel bod tai yn llai fforddiadwy

Dylid cyflwyno treth ar hysbysebion ac elw cwmnïau mawrion megis Gwgl, Facebook a Sky er mwyn ariannu gwasanaeth Cymraeg newydd.

## IV. Llywodraethu

Wrth ymwneud â Llywodraeth Cymru yn gyson dros y blynyddoedd, credwn fod nifer o ffyrdd y gellir gwella prosesau mewnol y Llywodraeth o ran creu a datblygu polisi am y Gymraeg.

Credwn fod manteision yn deillio o'r ffaith bod y Prif Weinidog wedi cymryd cyfrifoldeb am y Gymraeg, ond credwn y dylid symud Uned y Gymraeg i fod yn rhan o swyddfa'r Prif Weinidog, yn hytrach na'r adran addysg fel bod materion y Gymraeg yn cael eu prif-ffrydio'n well. Credwn

ymhellach y dylai fod ymgynghorydd arbenigol gan y Prif Weinidog er mwyn sicrhau bod arbenigedd a chymorth ar lefel uchaf i gefnogi datblygu polisi.

Fel dywedir uchod, credwn y dylid sefydlu Cyngor y Gymraeg er mwyn cynllunio'n fanwl ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg gan ddiwygio trefniadau presennol Cyngor Partneriaeth y Gymraeg.

Fel nodir uchod, credwn y dylai unrhyw ad-drefnu Llywodraeth Leol arwain at ragor o awdurdodau yn gweithio'n fewnol yn Gymraeg.

Cytunwn gyda Chomisiynydd y Gymraeg fod problemau ynghylch y ffordd yr ystyrir y Gymraeg wrth ddatblygu deddfwriaeth a rheoliadau. Cytunwn felly y dylai holl weision sifil Cymru feddu ar sgiliau siarad Gymraeg ac y dylai fod cymalau am y Gymraeg ym mhob darn o ddeddfwriaeth.

## Casgliad

Mae'r cynigion yr amlinellir yn ein dogfen weledigaeth yn becyn o bolisiau wedi eu seilio ar drafodaethau manwl oddi fewn yn ogystal ag arbennigwyr yn y maes polisi iaith. Wrth reswm, nid ydym yn honni bod gennym fonopoli ar yr holl bolisiau sy'n mynd i sicrhau bod y Gymraeg yn ffynnu dros y blynyddoedd i ddod, ond gobeithiwn yn fawr bod bodolaeth y ddogfen a'r cynigion yn dangos pwysigrwydd etholiad 2016 fel un o bwys hanesyddol i'r Gymraeg a chymunedau Cymru'n gyffredinol.

Wrth drafod nifer o'r cynigion mae nifer o themau cyson wedi codi ynghylch, er enghraifft, yr angen i gynllunio'r gweithlu yn llawer mwy bwriadus a heriol, a thargedau uchelgeisiol er mwyn sicrhau addysg Gymraeg i bawb. Mae elfen ddaearyddol ac anghenion gwahanol fathau o gymunedau wedi codi yn gyson, yn y maes cynllunio, addysg a hawliau. Credwn fod modd edrych ar y fodel a gynigiwyd gennym yn ein Bil Cynllunio ac Eiddo amgen sef 'continiw m datblygu'r Gymraeg' fel cysyniad y gellid ei ymestyn i feysydd eraill, a gobeithiwn y bydd modd esgor ar drafodaeth fanwl ar syniadau o'r fath dros y misoedd i ddod.

**Uned Cyswllt y Cynulliad,  
Cymdeithas yr Iaith Gymraeg  
Gorffennaf 2015**

# Dwi eisiau bod yn un mewn miliwn!

## **Dwi eisiau:**

cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn

atal yr allfudiad a chynnal cymunedau ynghyd â sicrhau  
llwybrau i ddod â Chymry Cymraeg yn ôl i'w cymunedau

defnyddio'r Gymraeg ymhob rhan o fywyd er mwyn sicrhau  
mai'r Gymraeg yw'r iaith naturiol o'r crud i'r bedd

**#etholiad16**

**#miliwn**

